

Polisi Cod Gwisg Dysgwyr

Cwmpas a Diben y Polisi

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn ymdrin â chydaddoldeb ac amrywiaeth o ddifrif. Mae gennym gorff myfyrwyr amrywiol ac rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod gennym goleg lle mae pawb yn cael eu trin yn gyfartal a gyda pharch. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn gwerthfawrogi amrywiaeth ei staff a'i ddysgwyr a'i nod yw creu amgylchedd lle mae credoau diwylliannol, crefyddol ac anghrefyddol neu athronyddol tebyg, oll yn cael eu parchu. Mae'n allweddol cynnal safonau deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a safonau proffesiynol bob amser. Diben y polisi hwn yw sicrhau diogelwch ein staff, ymwelwyr a'n dysgwyr wrth gefnogi a gwerthfawrogi credoau diwylliannol a chrefyddol ein cymuned.

Mae egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn sail i'r polisi hwn. Mae'r Coleg yn ymwybodol o'i ddyletswydd i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac ymddygiad anghyfreithlon arall.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal drwy gael gwared ar anfanteision neu eu lleihau, cymryd camau i fodloni anghenion, ac annog cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus lle mae cyfranogiad yn anghymesur o isel.
- Meithrin perthnasoedd da drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr ar bob rhaglen ddysgu ni waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.

Datganiadau'r Polisi

Mae nifer o egwyddorion allweddol wrth wraidd y Polisi hwn:

- Rhaid i'r dysgwyr sy'n cael mynediad at Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**. Mae'n bwysig ein bod ni'n hygyrch i'r gymuned leol hon ac yn diwallu ei hanghenion.
- Mae'n rhaid cefnogi ein dysgwyr i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn y Coleg, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad. Mae llesiant ein dysgwyr yn ganolog er mwyn iddynt deimlo'n dda am eu hunain a pharchu eraill.
- Yn y Coleg bydd ein dysgwyr yn datblygu'r **sgiliau** sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i ddatblygu'n llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Rhif Adolygiad:	Adolygiad 4
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	7/2021
Dyddiad Adolygu Nesaf:	7/2024

- Ymrwymiad i **ddulliau adferol** i sicrhau ein bod ni'n mabwysiadu cysylltiadau da drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Ddatblygu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod dysgwyr yn:
 - Gallu cael eu hadnabod yn syth; er mwyn cynnal diogelwch cymuned y Coleg a bodloni gofynion rheoliadau arholi.
 - Ystyriol o gredoau (crefyddol neu eraill) person; datblygu polisiâu sy'n ystyried gwisg grefyddol a hawl person i ymarfer ei gredoau.
 - Peidio â gwisgo dillad sy'n cynnwys sloganau neu symbolau y gellid eu hystyried yn dramgwyddus, yn eithafol a/neu'n wahaniaethol.
- Datblygu gweithdrefnau sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth lechyd a Diogelwch, yn enwedig mewn perthynas â CDP (cyfarpar diogelwch personol) a diogelwch yr amgylchedd gwaith.
- Hysbysu cymuned y Coleg o'r gweithdrefnau hyn; sicrhau bod pawb yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal amgylchedd cynhwysol a diogel.
- Hyrwyddo dealltwriaeth o grefydd a chred ac anghenion unigolion ar draws cymuned y Coleg. Gwneir hyn drwy hyfforddi staff, proses gyflwyno a thiwtorial i ddysgwyr, a defnyddio cyhoeddusrwydd a phosteri ar draws y coleg.
- Cofnodi a monitro unrhyw faterion sy'n codi o amgylch y polisi hwn er mwyn sicrhau bod y weithdrefn gywir yn cael ei dilyn a'n bod yn ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu dueddiadau.
- Adolygu effeithiolrwydd ein polisi a'n hymateb i anghenion ein cymuned yn rheolaidd a gweithredu ar unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r defnydd o'r gweithdrefnau, cynorthwyo staff i weithredu o fewn y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	Adolygiad 4
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	7/2021
Dyddiad Adolygu Nesaf:	7/2024

- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. derbyniadau, tiwtorial, arholiadau ac ati yn ymgorffori'r gweithdrefnau cod gwisg.
- Sicrhau nad yw darpariaeth y cwricwlwm yn mynd yn groes i ofynion nac ysbryd y polisi hwn.

Mae'r Deon Gwella Ansawdd yn gyfrifol am:

- Darparu hyfforddiant a datblygiad priodol i staff a dysgwyr ar bob cam o daith y dysgwr.
- Datblygu gwybodaeth a gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad dealltwriaeth o bwysigrwydd crefydd a chredoau.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Drin yr holl ddysgwyr gydag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth neu ddrwgdeimlad.
- Bod yn ymwybodol o'r Polisi Cod Gwisg a'r gweithdrefnau ar gyfer annog ac ymateb i ddatgeliadau mewn modd cefnogol.
- Gweithio o fewn gofynion y Polisi Diogelu Data.
- Dilyn y polisi mewn perthynas â dymuniad myfyriwr i gadw ei ddelwedd yn breifat.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni.
- Mynychu digwyddiadau DPP ar agweddau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymwybyddiaeth o gydraddoldeb.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiynau sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi ar draws y Coleg.
- Rhoi adborth ar y polisi mewn grwpiau ffocws dysgwyr a thrwy gyfleoedd eraill.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Deddf Cydraddoldeb 2010

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Mae goblygiadau Iechyd a Diogelwch i'r polisi hwn mewn perthynas â diogelwch yn y lle gwaith e.e. y salon neu'r gweithdy. Roedd angen i'r polisi hefyd ystyried mater diogelwch ac adnabod pawb ar draws y Coleg. Ystyriwyd yr agweddau hyn fel rhan o'r polisi hwn.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	Adolygiad 4
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	7/2021
Dyddiad Adolygu Nesaf:	7/2024

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod law yn llaw â'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio ym mywyd bob dydd.

Polisiâu Cysylltiedig

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu
- Iechyd a Diogelwch
- Derbyniadau
- Arholiadau
- Bwlio ac Aflonyddu

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu
- Iechyd a Diogelwch
- Derbyniadau
- Arholiadau
- Bwlio ac Aflonyddu

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 3 blynedd.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	Adolygiad 4
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	7/2021
Dyddiad Adolygu Nesaf:	7/2024

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Dyddiad cymeradwyo:	19/04/2013
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Safonau Ansawdd
Dyddiad adolygu:	01/07/2024

Rheolwr sy'n Gyfrifol:	Deon Gwella Ansawdd
Arweinydd Gweithredol:	Dirprwy Bennaeth Cwricwlwm a Safonau
Ar gael i Ddysgwyr:	Ydy

Rhif Adolygiad:	Adolygiad 4
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	7/2021
Dyddiad Adolygu Nesaf:	7/2024